OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1465 (Cy. 159)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *1 Gorffennaf 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 127(9) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Cafodd drafft o'r Rheoliadau hyn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf honno a'i gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod awdurdodi" ("*authorising authority*") yw'r awdurdod lleol sy'n awdurdodi'r swyddog awdurdodedig;

ystyr "hyfforddiant priodol" ("*appropriate training*") yw hyfforddiant a ddarperir neu a drefnir gan Weinidogion Cymru neu awdurdod awdurdodi a fydd yn galluogi person i ymgymryd â swyddogaethau swyddog awdurdodedig o dan adran 127 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr "profiad perthnasol" ("*relevant experience*") yw bod yr awdurdod penodi wedi ei fodloni bod gan y person y profiad sy'n ofynnol o weithio o fewn maes gofal cymdeithasol gydag oedolion sy'n wynebu risg, neu y gallent fod yn wynebu risg;

ystyr "swyddog" ("*officer*") yw swyddog a benodir o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

(**1**) 2014 dccc 4.

**Cyfyngiadau ar bwy a gaiff fod yn swyddog awdurdodedig**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), ni chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sy'n swyddog i'r awdurdod awdurdodi i wneud cais am orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mewn achos penodol pan na fo'n ymarferol i swyddog sy'n bodloni paragraff (1) weithredu, ni chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person a chanddo brofiad perthnasol, sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sydd—

(a) yn swyddog i awdurdod lleol o fewn yr un ardal Bwrdd Diogelu(**2**) â'r awdurdod awdurdodi, neu

(b) pan na fo'n ymarferol i swyddog a ddisgrifiwyd yn is-baragraff (a) weithredu, yn swyddog i unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.

(3) Mewn achos penodol pan na fo'n ymarferol i swyddog sy'n bodloni paragraff (1) neu (2) weithredu, ni chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person sy'n swyddog i'r awdurdod awdurdodi.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

1 Gorffennaf 2015

(**2**) Mae adran 142 o'r Ddeddf yn diffinio "ardal Bwrdd Diogelu" fel ardal a nodir mewn rheoliadau o dan adran 134(1) o'r Ddeddf (gweler y Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 S.I. 2015/1357 (W. 131)).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac maent yn ymwneud â pherson a awdurdodir gan awdurdod lleol i wneud cais am orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn o dan adran 127 o'r Ddeddf honno.

Mae rheoliad 3(1) yn darparu, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraffau (2) a (3), na chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person a chanddo brofiad perthnasol, sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sy'n swyddog i'r awdurdod lleol hwnnw.

Pan na fo hynny'n ymarferol, mae rheoliad 3(2) yn darparu ar gyfer awdurdodi person a chanddo brofiad perthnasol, sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sy'n swyddog i awdurdod lleol o fewn ardal bwrdd diogelu benodol, neu yn niffyg hynny, i awdurdod lleol yng Nghymru.

O dan amgylchiadau pan na fo'n ymarferol i swyddog a ddisgrifir ym mharagraffau (1) neu (2) weithredu, mae rheoliad 3(3) yn caniatáu i awdurdod lleol awdurdodi swyddog i'r awdurdod lleol hwnnw a chanddo brofiad perthnasol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi drwy gysylltu â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.